



David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

SeneddMADY@senedd.cymru

24 Awst 2020

Annwyl Gadeirydd

Cytundeb rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Gwlad Pwyl ar Gyfranogiad Gwladolion Pob Gwlad sy'n Preswyllo yn Nhiriogaeth y Llall mewn Etholiadau Penodedig

Rwyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ar 8 Gorffennaf ynghylch y cytuniad uchod ("Cytundeb y DU-Gwlad Pwyl"). Nodir yr atebion i'r cwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor isod.

Cwestiwn 1

Nid yw darpariaethau Cytundeb y DU-Gwlad Pwyl yn anghydnaws â'n cynigion ym Mil Llywodraeth Leol ac Etholiadau. O ganlyniad rydym yn fodlon â'r trefniadau a sefydlir gan y Cytundeb.

Cwestiwn 2

Fel y mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan, ymgynghorwyd â ni ar y trefniadau arfaethedig cyn i'r Cytuniad gael ei lofnodi. Nid yw Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud cytuniadau sy'n rhwymol mewn cyfraith ryngwladol â Llywodraethau tramor. Rwyf yn cadarnhau ein bod yn fodlon felly fod Llywodraeth y DU wedi cytuno ar y trefniadau hyn â Llywodraeth Gwlad Pwyl.

Cwestiwn 3

Mae Llywodraeth y DU wedi cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r Cytundeb. Rydym yn fodlon bod Llywodraeth y DU wedi cyflawni ei hymrwymiad blaenorol. Er hynny, cafodd llythyrau eu cyfnewid ar lefel weinidogol tua diwedd y broses ac fe fyddai wedi bod yn well gennym weld ymgysylltu cynharach a fyddai wedi galluogi ymgysylltu â'r Senedd. Byddwn yn mynd ar drywydd hyn gyda Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau ymgysylltu cynharach â chytundebau o'r math hwn yn y dyfodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cwestiwn 4

O gofio maint y pwysau yr ydym wedi bod yn delio â hwy yn y misoedd diwethaf ni fu modd cytuno ar fecanwaith o'r fath â Llywodraeth y DU. Mae'r Cytuniad yn darparu y caiff y naill barti neu'r llall derfynu'r Cytundeb trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Parti arall. Mae'r Cytuniad yn ei gwneud yn ofynnol hefyd fod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Gwlad Pwyl yn hysbysu ei gilydd am newidiadau i'r etholfraint yn eu cyfraith ddomestig sy'n berthnasol i gwmpas a gweithrediad y Cytundeb. Mae'n darparu hefyd i ddiwygiadau gael eu gwneud i'r Cytuniad. Os bydd Senedd yn y dyfodol yn dymuno deddfu i newid yr etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol byddai'n agored i Lywodraeth Cymru ofyn i Lywodraeth y DU geisio cytuno ar unrhyw newidiadau o'r fath i'r Cytuniad a allai fod yn angenrheidiol.

Cwestiwn 5

Mae swyddogion yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn trafod datblygiadau yn rheolaidd mewn perthynas â chytuniadau ar hawliau pleidleisio dwyochrog

Cwestiynau 6, 7 ac 8

Mae ymgysylltiad Llywodraeth Cymru a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill gan Lywodraeth y DU, a chadarnhad o hynny yn y Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, yn gydnabyddiaeth nad yw'r etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yn fater a gedwir yn ôl. O ganlyniad, nid oes gennym unrhyw reswm dros gredu y byddai Llywodraeth y DU yn ceisio deddfu i ddileu hawliau pleidleisio dinasyddion yr UE yn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Byddem, wrth gwrs, yn gwrthwynebu unrhyw ymgais o'r fath. Er hynny, mater i'r Senedd fyddai penderfynu sut i ddefnyddio ei chymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn os bydd Senedd y DU yn ceisio deddfu fel hyn.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Llywydd.

Dymuniadau gorau



MARK DRAKEFORD